# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 8 RHAGFYR 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Nadolig Llawen



Y Maer y Cynghorydd Rhys a Lynn Thomas yn rhoi goleuadau y dref arno



Santa a'i helpar yn ymweld a Dinbych



Ysgol Uwchradd Dinbych a fu'n canu carolau

## Ymgyrch leol yn erbyn estyn y Chwarel - hanes tudalen 6



Llun yn dangos pa mor agos mae'r chwarel i'r tai gyda amlinell yn dangos y ffin arfaethedig



Dymuna'r Maer a'r Faeres
y Cynghorydd
Rhys Thomas a
Mrs. Lynn Thomas
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd dda
i holl ddarllenwyr y Bigwn




Map yn dangos amlinell o'r estyniad



Un o'r caeau fydd yn cael eu colli



Priodas - Caeron Llwyd ac Elliw Morris. Hanes tudalen 4

## RHESTR Y SWYDDOGION


**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru



Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain



**'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'**

CYMRAEG


**Golygydd Mis Ionawr:**
**Erfyl Williams**

# Gair gan y Golygydd

Ers dod i fyw i Ddinbych 45 mlynedd yn ôl dwi wedi bod ym ymwybodol fod y gymuned yma yn un arbennig o safbwynt ei gofal o bobl bregus o bob math. Mae'n bosibl mai ffrwyth gofalu am gleifion yr ysbyty meddwl yw hynny.

Tra'n paratoi i sgwennu'r pwt yma cefais fy atgoffa o hyn wrth sgwrsio gyda rhywun dwi wedi dod i ystyried yn gyfaill erbyn hyn. Sôn ydw i am Mark, dyn a fu'n ddi-gartref am gyfnod eithaf hir. Bydd llawer ohonoch wedi ei weld yn eistedd tu allan i Lidl a dwi'n siŵr y bydd llawer ohonoch wedi cael sgwrs efo fo.

Mae Mark wedi cael bywyd digon anodd dros y blynyddoedd a fo ydi'r cyntaf i gyfaddef nad yw wedi gwneud y dewisiadau mwyaf doeth yn aml. Serch hynny mae wedi bod yn ymdrechu'n galed i newid cwrs ei fywyd er gwell ac erbyn hyn wedi cael cartref newydd. Dywedodd mai caredigrwydd pobl Dinbych sydd wedi ei gadw i fynd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cymaint yn stopio i gael sgwrs efo fo neu brynu rhywbeth iddo fwyta neu yfed heb iddo ofyn.

Mae Mark yn dal i gael ambell gyfnod anodd ac ambell waith bydd yn dod draw i Lidl i gadw mewn cysylltiad a'r bobl fu'n garedig wrtho. Dwi'n siŵr na fydd pobl Dinbych yn anghofio amdano a meddwl bod popeth yn iawn rŵan fod ganddo do uwch ei ben. Nid dyna natur ein cymuned.

*******************************

Tipyn o syndod i mi oedd derbyn llythyr i'r Bigwn yn ceisio lledaenu neges beryglus y mudiad gwrth-frechlyn. Prysuraf i ddweud nad o'n hardal ni y daeth y llythyr. Wrth gwrs nid yw'r mudiad gwrth-frechlyn yn newydd. Roedd yn bodoli hyd yn oed cyn i Jenner ddatblygu y brechlyn yn erbyn y Frech Wen. Yr adeg hynny gwrthwynebu technegau tebyg i frechlyn yn erbyn y Frech Wen oedd y nod a defnyddiwyd storïau brawychus cwbl ddi-sail yn union fel y gwneir heddiw. Diolch byth nad oedd eu hymgyrch yn llwyddiannus neu byddai Y Frech Wen, Polio ac ati yn dal yn ein plith. Rydym i gyd yn gwybod am hanes y gwrthwynebiad i frechlyn MMR, ffug-dystiolaeth Wakefield a'r effaith andwyol gafodd ar lefelau y Frech Goch yn ein cymdeithas. Peidiwn felly a rhoi unrhyw sylw i ymgais y gwrth-frechlynwyr i'n dychryn a cymerwn fantais o'r brechlyn Covid-19 er mwyn sicrhau dychwelyd i fywyd normal eto.

*******************************

Hoffwn orffen drwy ddymuno Nadolig Llawen iawn i'n darllenwyr a mawr obeithiaf y bydd y Nadolig hwn yn dipyn mwy normal na'r llynedd ac y byddwn yn gallu gweld ein teuluoedd a'n ffrindiau ond gan barhau i gymryd gofal wrth gwrs gan nad ydi'r hen glefyd yna wedi cilio'n llwyr.

Dyfrig Berry

## BAG Y BIGWN

| | |
|---|---|
| Maldwyn Evans | £15.00 |
| Dafydd ac Alwenna Williams | £ 10.00 |
| Alun a Lilian Jones | £ 10.00 |
| Hywel a Eiddwen Watkin | £10.00 |
| Gaynor Morgan Rees | £10.00 |
| Di-enw | £10.00 |

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Ionawr**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Rhagfyr 17**


sir ddinbych denbighshire
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

## Swyddogion newydd i'r Bigwn

Yr ydym yn falch o ddweud ein bod bellach gyda Thrysorydd ac Ysgrifennydd newydd ar gyfer Y Bigwn. Cytunodd Mrs Sian Rogers, a fu'n un o'r teipyddion ers peth amser bellach, fod yn Ysgrifennydd tra bod Mr Llifon Jones, un o'n dosbarthwyr, yn cymryd drosodd y swydd o Drysorydd.
Diolchwn o galon iddyn nhw.
Ar yr un pryd dymunwn ddiolch i'r ddau fu yn y swyddi ers peth amser bellach – Mr Bedwyr Griffiths yn Ysgrifennydd a Mr John Geraint Jones yn Drysorydd. Mawr ydy'n dyled i'r ddau ohonyn nhw.
Byddem, wrth gwrs, yn falch a hapus iawn o groesawu unrhyw un arall sy'n dymuno gweithredu mewn unrhyw swydd gyda'ch papur bro.



**Sian Rogers**

Helo ddarllenwyr y Bigwn! Sian Rogers ydw i, a fi ydi Ysgrifennydd newydd Y Bigwn.
Ges i ngeni a'm magu yma yn Ninbych ac erbyn hyn wedi setlo yma efo fy ngŵr, Gareth.
Dwi'n gweithio i Wasanaeth Erlyn y Goron ers ugain mlynedd ac yn fy amser sbâr, mi fedrai fynd ar goll mewn llyfr yn hawdd, ac mae Gareth a minnau'n hoff o gerdded - rydan ni'n anelu i gyflawni Llwybr Arfordir Cymru, ac wedi cyrraedd bron cyn belled ag Aberdaron erbyn hyn. Un o fy hoff bethau ydi trafaelio (efallai y bydd y rhai hynny sydd wedi bod yn darllen y Bigwn ers blynyddoedd maith yn cofio gweld ambell i erthygl gen i am rhai o fy nheithiau!), ac mae ganddon ni restr hirfaith o lefydd da ni am ymweld a nhw!

**Llifon Jones**



Cefais fy ngeni a'm magu ym mhentref Waunfawr ger Caernarfon. Mynychais ysgol gynradd y pentref cyn symud i Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon ac yna i'r brifysgol ym Mangor i astudio Economeg.
Ar ôl priodi hefo Delyth yn 1986 mi wnaethom ni ymgartrefu yn Ninbych. Roedd Delyth yn gweithio i Gymdeithas Tai Clwyd a minnau yn Ysgol y Creuddyn yn Llandudno. Mae gennym ni ddau o blant – Eilian sy'n byw adref hefo ni ac Annest sydd bellach yn byw yn Gothenburg yn Sweden.
Bellach mae'r ddau ohonom wedi ymddeol – Delyth o fod yn bennaeth Ysgol Bod Alaw ym Mae Colwyn a minnau o fod yn ddirprwy brifathro yn Ysgol Maes Garmon yr Wyddgrug.
Mi fydd hi'n fraint cael gweithredu fel trysorydd y Bigwn a byddaf yn anelu at gadw at safonau trylwyr John Geraint a fu'n drysorydd ardderchog i'r Bigwn am fwy na deng mlynedd.

**Priodas - Caeron Llwyd ac Elliw Morris.**
**llun tudalen 2**

Ar Fedi'r 18fed, 2021, priodwyd Caeron Llwyd, mab Cledwyn a Siân Jones ac Elliw Morris, merch Philip a'r diweddar Olwen Morris. Cynhaliwyd y briodas yng Nghapel Pendref, Dinbych a'r wledd yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy. Mae'r priodfab yn yr i'r Parchedig Cledwyn Parry a fu gynt yn weinidog ar Gapel Pendref. Lliwen Angharad Jones a Mared Elin Jones oedd y morynion priodas, ac Elan Glyn Thomas oedd y forwyn fach. Elidyr Glyn ac Ynyr Roberts oedd y gweision; Tom Brettell a Spencer Duffy oedd yr ystlyswyr. Y Parchedig Jennie Hurd oedd yn gwasanaethu a'r organyddes oedd Vera Savage, Llanelwy. Tynnwyd y lluniau gan Hywel Evans, Dinbych.

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones




Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

# Ymgyrch leol yn erbyn estyn y Chwarel

Lluniau ar dudalen 2

Heb i mi sylweddoli bron, mae Chwarel Dinbych wedi bod yn gefndir llwyfan i mi gydol fy mywyd. Arferwn glywed y seiren yn canu am 11 y bore, ychydig cyn I'r 'blastio' arwain i'r tŷ grynu. Arferwn edrych ar y Chwarel yn ddiddiwedd tra yn astudio ar gyfer fy arholiadau. Fy unig atgof plentyndod o gerdded i fyny y caeau at Goedwig y Crêst, yw cerdded gyda fy Nhad pob diwrnod San Steffan. Mae gen i go clir ohono fo yn dangos cartre ei febyd, Bron Parc, Nantglyn o'r caeau. Gan fy mod erbyn hyn yn nôl yn byw yn y cartre teuluol, mae'r Chwarel unwaith eto wedi dod yn asgwrn cefn i'm bywyd ond gyda arwyddocâd ychwanegol.

Pan ddychwelais adra i helpu i ofalu am fy rhieni, dechreuais gerdded i fyny'r caeau ond y tro hwn, heb fy Nhad. Fe ddatblygodd y caeau a'r coedwigoedd 'na yn noddfa i mi, y lle i mi jyst i fod a weithiau i waeddi allan yn groch. Mae'r coed yna wedi sugno rhannau ohono'i, fy llafur a'm chwys a fy nagrau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ma. 'Rwyf wedi ymgolli fy hunan yna yn rhythm byd Natur. Gweld barcud yn aml yn fflio uwchlaw, dau lwynog ifanc yn stopio yn stond o'm blaen, mewn braw, ac yna ffwrdd â nhw ac yn fy ngadael mewn gwewyr hapus. Arogl melys y garlic gwyllt cyn i'r blodau bach gwyn wthio eu hwynebau o'r pridd ac yna yn fuan ar eu holau, clychau'r gog yn flanced godidog o las. Mae'r blodau hyn yn cystadlu am diriogaeth ac yn tyfu ar wahân i'w gilydd ond wastad yn agos. Mae eu presenoldeb yn arwydd fod y goedwig wedi bod yma am amser maith, ei fod yn wir yn goedwig hynafol. Mae gwyddonwyr wedi dynodi fod dwy ran o goedlan y Chwarel yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond 'rydym ni bobl lleol yn reddfol wedi deall eu pwysigrwydd unigryw, falle yn fwy byth ar ôl y pandemig.

Nid fi yw'r unig un sydd yn teimlo bygythiad cry o fwriad Cwmni Breedon i estyn y Chwarel i'r dwyrain, yn agosach i Goedwig y Crêst (o fewn can troedfedd) ac yn agosach i gartefi yn Bryn Seion a Cysgod y Graig. Beth bynnag a ddatgenir gan beiriant PR Breedon, mae pobl yn deall fod hyn yn fygythiad i'n hamgylchfyd fel cymuned yn ogystal ag i'n llesiant o ran mwy o sŵn, gronynnau llwch peryglus a niwed i'n cartrefi. Yn ei haraith i Bwyllgor Cynllunio y Sir yn 2019, yn gwrthwynebu y cais am estyniad amser I'r Chwarel, bu i Dr Sue Hewitt, trigolyn lleol, egluro y canlynol, '*Limestone quarry dusts carry harmful small particulates (PM2.5) and blast clouds contain soot. DEFRA has demonstrated strong links to poor health with long term PM2.5 exposure, recommending reduction of public exposure as far as practically possible. Recent studies show that particulates reduce birth weight in otherwise healthy mothers and that soot particles can be seen in placentas. Airborne PM2.5 concentration does not reduce significantly with distance.*'

Er i Breedon egluro y bydd llwybrau cyhoeddus yn cael eu hail gyfeirio a coed yn cael eu hail blannu yn lle y rhai o gollir, maent yn dangos eu hunain i fod allan o diwn gyda blaenoriaethau ein hoes ac anghenion ein cymuned a chenedlaethau y dyfodol. Mae hi yn amser i blannu mwy o goed RWAN dim eu torri i lawr gyda ryw siarad nonsens y bydd y coed newydd yn tyfu nôl mewn 20 mlynedd. Does gan ein byd natur brau ddim 20 mlynedd o amser! Bydd y llwybrau cyhoeddus newydd a gynigir gan Breedon yn ei gwneud hi yn anoddach i bobl gyrraedd y goedwig yn enwedig i'r rhai sydd yn gyfyng o ran amser i gerdded gyda'r ci neu i wneud ymarfer corff. Bydd y llwybrau cyhoeddus a gynigir yn gwyro o lwybr cerdded hynafol o Ddinbych i Henllan, llwybr a welir ar fapiau OS ers o leia 1888. 'Rydym mewn perygl o golli ein treftadaeth ddiwylliannol yn ogystal a chreu niwed i'n coedwigoedd hynafol, niwed nad oes modd ei ddadwneud. Yn ogystal â'r materion uchod, bydd y grŵp ymgyrchu lleol 'Achub ein mannau gwyrdd' SOGS Dinbych/Denbigh yn codi gwrthwynebiadau ychwanegol i estyn y Chwarel yn cynnwys a oes angen am yr agregau a gloddir. Nid yw'r achos o blaid wedi ei phrofi eto!

Mae ffocws yr ymgyrch yn symud rwan i Bwyllgor Cynllunio y Cyngor gan ein bod yn disgwyl i Breedon gyflwyno eu cais am estyniad tir i'r Gorllewin ynghanol Rhagfyr. Wrth gwrs mae aelodau y Pwyllgor Cynllunio yn gorfod dilyn canllawiau statudol a byddwn fel grŵp ymgyrchu yn atgoffa y Cynghorwyr o Bolisi Cynllunio Cymru 2021, '*Rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio ymarfer y swyddogaethau hynny yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*.' (Polisi Cynllunio Cymru 2021).

O ddeutu 30 mlynedd yn ôl, fe wnaeth gŵr lleol, Norman Makinson, ac aelodau Cymdeithas Ddinesig Dinbych ymgyrchu yn llwyddiannus i berswadio Cwmni y Chwarel ar y pryd i blannu coed i greu coridor bywyd gwyllt i gysylltu y ddwy goedwig yn y Crêst. 'Roedd y trigolion hyn yn oleuedig ac yn meddwl am les fy nghenhedlaeth i. Rwy'n edrych ar y coed hyn o ffenestr fy stafell wely. Bydd y coed, sydd wedi eu sefydlu yn gadarn erbyn hyn, yn ogystal a'u bywyd gwyllt, yn cael eu dymchwel a'r coridor bywyd natur yn cael ei falurio os yw'r cais am estyniad yn llwyddiannus. A fedran ni fel cymuned ganiatáu hyn i ddigwydd? Beth yr ydym ni yn ei adael fel gwaddol i'n cenedlaethau i ddod?

Mae Cwmni Breedon yn barod wedi ennill yr hawl i estyn eu gwaith chwarela o fewn ôl troed presennol y Chwarel. Maent yn nawr eisiau cymryd mwy o dir ac fel dywedodd un trigolyn lleol wrtha'i yn ddiweddar, '*Nathan nhw addo y buasant yn adfer y Chwarel yn ôl i Natur erbyn 2028, rwan ma nhw isio mwy, pryd fyddan nhw yn deud digon yw digon'*.

Mae arbenigwr daearegol Breedon wedi cyfadde y bydd hi yn cymryd 4 blynedd i adfer y safle i'w gynefin naturiol. Gadewch i ni i gyd fel cymuned, wneud yr hyn a allwn, i orfodi ein Cynghorwyr i wrando ar ein pryderon a phleidleisio yn erbyn yr estyniad i'r Chwarel a phleidleisio o blaid ein llesiant amgylcheddol, corfforol a meddyliol yn ogystal â lles cenedlaethau y dyfodol.

I ddysgu mwy am yr ymgyrch lleol , edrychwch ar dudalen FB SOGS Dinbych.

Mair Jones

# Idris a Wali

O fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd fe gollodd pêl-droed yng Ngogledd Cymru ddau o gymeriadau mwyaf lliwgar y trigain mlynedd diwethaf – Idris "Tarw Nefyn" Evans a Mei "Wali Tomos" Jones.

Roedd y ddau yn adlewyrchu gwahanol agweddau o'r gêm.

Dan ddylanwad ei bartner Orig "El Bandito" Williams, enillodd Idris enw fel chwaraewr caled. Na, doedd y dyn efo'r llais main ddim yn chwaraewr caled – hynny ydy budr – ond roedd o braidd yn hwyr yn mynd i mewn i'r dacl ar adegau.

O ganlyniad roedd o naill ai yn cicio neu'n baglu'i wrthwynebydd.

Oedd, roedd o drwy brofiad wedi dysgu ambell dric amddiffynnol ac ymosodol dros y blynyddoedd, ond roedd o ymhlith yr anwylaf o ddynion. I hogia Dyffryn Nantlle roedd o'n arwr.

Un o'm hoff straeon amdano oedd un y clywais i o'n ei hadrodd. Roedd hi'n arferiad yn y dyddiau hynny gan yr hogia' i gael rhywun i rwbio eli ar eu coesau cyn gêm er mwyn cynhesu'r cyhyrau. Olew Morris Ifans oedd ffefryn ambell un.

Doedd yna neb yn gwneud "physical jerks" a rhedeg hanner milltir cyn i'r gêm ddechrau fel maen nhw'n ei wneud heddiw.

Ta waeth, dyma Idris yn gofyn i'r ymgeleddwr roi eli ar ei goesau fo, ac fe aeth hwnnw - a oedd yn ddigon tebyg i Wali mewn sawl ffordd - ati o ddifrif ar ei dasg.

O fewn ychydig funudau fe deimlodd Idris ei gyhyrau yn dechrau tynhau, ac fe aeth pethau o ddrwg i waeth yn ystod yr hanner cyntaf.

"Be' ydy'r stwff 'na roist ti ar fy nghoesa' i ?" holodd ar yr egwyl, a chafodd yr ateb gan ei gyfaill, "Ew, stwff da ydy o ynde?"

Glud oedd y stwff da, a'r diwrnod hwnnw roedd Idris yn gallu tystio pa mor effeithiol a chryf oedd y glud arbennig hwnnw.

Chwaraewr ym mhrif gynghrair Gogledd Cymru oedd Idris, cynghrair lle roedd yna dri dyn diarth mewn du yn rhedeg y sioe.- y dyfarnwr a'r ddau lumanwr.

Ar lefel ychydig yn is roedd Bryncoch a Wali yn gweithredu. Dyma'r lefel lle roedd clybiau yn gorfod sicrhau'u dynion eu hunain i redeg y llinell gydag ambell un yn gweithredu ar yr egwyddor, "Rhaid codi'r fflag a gweiddi *offside* unrhyw adeg y mae'r gelyn yn edrych fel sgorio."

Dan diwtoriaeth Arthur un o'r rhai hynny oedd Wali.

Yn aml iawn, roedd eu gwisg yn ddigon tebyg i'r hen Wali, o'r beret i'r welingtons. A dyna gamp arbennig Mei Jones – roedd o'n adnabod y gêm ar lefel bentrefol, o hunan bwysigrwydd Arthur Picton i ddiniweidrwydd Wali Tomos.

Yn ddiddorol iawn, roedd llawer o'r gwaith ffilmio wedi'i wneud ar gae bychan di-nod yng Nghaernarfon a chae Mountain Rangers yn Y Bontnewydd.

Dyma ardal sydd wedi bod yn grud i bêl-droed ar y lefel hon ar hyd y blynyddoedd gan gynhyrchu nifer dda o chwaraewyr a gynrychiolodd Cymru ar wahanol lefelau.

Dwn i ddim a ydy'r stori yn wir, ond yn ôl pob sôn bu'n rhaid i chwaraewr adael un clwb yn yr ardal dan bwysau gan ei ddarpar dad-yng-nghyfraith, a oedd yn aelod o bwyllgor clwb arall a'r ddau dîm yn geffylau blaen yn y ras am y bencampwriaeth.

Fe fyddai honna wedi bod yn stori dda i "C'mon Midffild".

Na, nid gêm ydy hi ar y lefel hon, ond rhywbeth llawer mwy - brwydr am oruchafiaeth a hunan-barch.

Do, fe gawsom ni golled enbyd gyda marwolaeth y ddau, ond mewn gwahanol ffyrdd fe wnaeth pob Idris a phob Wali sicrhau bod gêm fwyaf y byd yn fyw ac yn iach yng Ngogledd Cymru.

**Stan Lyall**

## Gwefan Y Bigwn

Cofiwch am wefan y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae'r rhifynnau digidolyn bod yno hefyd.

Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru




SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw**
**Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa**
**Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon**
**Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar
**01824 703833 (Rhuthun) neu**
**01745 818263 (Dinbych)**


**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

# Cymdeithas Caledfryn



Rod Williams, Berwyn Evans a Jac




Daeth criw da iawn o aelodau i ail gyfarfod Cymdeithas Caledfryn ar nos Wener 29ain o Hydref yn y Felin Brwcws. Y gwr gwadd y tro yma oedd Berwyn Evans, Llansannan a testun ei sgwrs oedd 'Dyffryn Aled fel carchar i Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Mawr'.

Mae Berwyn yn enedigol o Fferm Crabanne, Ffordd Groes, Dinbych ac am gyfnod bu Berwyn a'i wraig Ann yn cadw 'Siop Aled Owen' ar Stryd y Dyffryn. Ers symud i Lansannan mae Berwyn wedi ymwneud â llawer o gymdeithasau a mentrau ym Mro Aled ac mae ganddo ddiddordeb mawr mewn hanes lleol.

Dywedodd Berwyn bod Plasty Dyffryn Aled sydd rhwng Llansannan a Bryn Rhyd yr Arian wedi ei adeiladu yn 1797 gan Diana Wynne-Yorke a bu teulu'r Wynne-Yorke yn byw yno hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cafodd ei ddefnyddio wedyn fel ysbyty meddwl sef 'The Royal Cheadle Lunatic Asylum' cyn ei droi yn ddiweddarach yn garchar rhyfel. Roedd dros 30 o gelloedd braf iawn yno gydag oddeutu cant o garcharorion Almaenig yn mwynhau bywyd cyfforddus gyda bwydlen arbennig a blasus ac yn cael hanner eu cyflog fel swyddogion milwrol wedi ei dalu gan Lywodraeth Prydain. Swyddogion morwrol a chapteiniaid o lynges yr Almaen oedd mwyafrif y carcharorion - enwau cyfarwydd fel Wolf von Tipitz a Hermann Tholens. Dywedodd un o'r carcharorion 'fod pob dim yn cael ei wneud er mwyn eu moethusrwydd a'r caledi mwyaf sy'n eu wynebu yw sut i basio'r amser'.

Ond er y bywyd braf roedd rhai a'u bryd ar ddianc o Ddyffryn Aled. Yn dilyn y ddihangfa gyntaf cafodd y ddau garcharor eu dal mor bell a Harlech a'u hebrwng wedyn yn ôl i garchar Love Lane, Dinbych. Dihangodd tri arall gan geisio cyfarfod â llong danfor Almaenig oddi ar y Gogarth, Llandudno. Yn anffodus aeth y carcharorion i'r bae anghywir tra bod yr 'u-boat' yr ochr arall i'r Gogarth. Un o'r tri oedd Tholens ac yn ôl yr hanes rhoddodd ei Fedal Groes Haearn i fam a'i phlentyn ar y stryd yn Llandudno cyn cael ei ddal gan yr heddlu.

Ar ddiwedd y rhyfel roedd yr hen blasty yn wag unwaith eto a thros y blynyddoedd dirywiodd ei gyflwr cyn cael ei ddymchwel. Bu sawl un o'r aelodau yn holi cwestiynau ac yn cynnig gwybodaeth am Dyffryn Aled sy'n dyst bod pawb wedi mwynhau'r cyflwyniad yn fawr iawn. Diolchwyd i Berwyn gan Jac, Llywydd y noson a ddywedodd pa mor braf oedd gweld cymaint o aelodau yn bresennol.


J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS


Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg



MALDWYN WILLIAMS

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT

GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

## Cyfarchion Arbennig

A ninnau wedi cyrraedd Rhagfyr, gadewch imi fod y person cyntaf i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n sefydliadau ariannol ni, sef y banciau.

Chwarae teg iddyn nhw maen nhw wedi'i chael hi'n o galed yn ddiweddar gyda ni eu cwsmeriaid mor feirniadol ohonyn nhw.

Wedi'r cyfan pam y dylen nhw gadw canghennau yn agored ar ein cyfer ni mewn lleoedd di-nod fel Dinbych? Onid ydy pawb eisiau bancio ar-lein bellach? Mae pawb yn berchen ar gyfrifiadur a *smart phone*, yn tydyn nhw?

Does neb eisiau mynd i adeilad a thrafod eu sefyllfa ariannol gyda'r rheolwr lleol, a does neb eisiau gweld y person hwnnw yn cuddio yn y cwpwrdd dillad bellach.

Does neb ychwaith yn dymuno sgwrsio gyda'r staff sydd tu ôl i'r cownter a'u hadnabod nhw'n ddigon da i'w galw nhw'n ôl eu henwau cyntaf.

Onid gwell o'r hanner ydy gan bobl dreulio tri chwarter awr a mwy yn aros am ateb gan rywun hynod o brysur mewn canolfan alwadau ffôn ymhell bell i ffwrdd, a chael eu trosglwyddo o un aelod o staff i aelod arall ac i aelod arall *ad infiinitum*?

Ac y mae gan un banc o leiaf syniada fydd yn sicr o apelio at eu cwsmeriaid – gwneud i elusennau, clybiau chwaraeon a chymdeithasau dalu ffî o £60 yn flynyddol am eu haelioni yn delio gyda'u busnes.

Wedi'r cyfan, onid ydy hi'n iawn i Eisteddfod Llanbidinodyn dalu iddyn nhw am y fraint o fancio'u derbyniadau a thaliadau unwaith y flwyddyn gyda'r sefydliad sydd yn meddwl cymaint ohonyn nhw?




---

Roeddwn i'n credu'n gryf y byddai'r peth yn dipyn o aberth – gorfod gwylio sioe ddawnsio ar y teledu ar nos Sadwrn yn hytrach na gwylio gêm bêl-droed, ond rhaid imi gyfaddef fy mod i'n dechrau mwynhau *Strictly Come Dancing* er mai dwy droed chwith sydd gen i.

A'r rheswm am hynny ydy fy mod i'n edmygu ymdrech a dyfalbarhad y rhai sy'n cystadlu gan gyrraedd safon mor uchel.

Y mae yna un ohonyn nhw yn actor byddar na all glywed y gerddoriaeth ac eto mae'i pherfformiadau hi yn anhygoel, neu *"amazin"* fel y dywed rhai ar Radio Cymru.

Ac o sôn am y BBC yng Nghymru, ychydig fisoedd yn ôl fe wnaethon nhw raglen glodwiw am un o ddawnswyr proffesiynol y sioe â chyflwr difrifol sydd yn ei llethu hi'n llwyr ar wahanol adegau. Roedd ei dewrder hi yn y fath sefyllfa yn destun edmygedd.

Oes, tu ôl i'r gwisgoedd ffansi a'r goleuadau llachar mae yna bobl go iawn nad ydy bywyd wedi bod yn rhwydd iddyn nhw, ond dydy cwyno ddim yn rhan o'u geirfa nhw. Yn sicr maen nhw'n esiampl i bob un ohonom ni.

**Stan Lyall**

# Cymdeithas Y Bigwn

Cynhaliwyd cyfarfod i drafod dyfodol Cymdeithas y Bigwn nos Fawrth Tachwedd 16eg ym Melin y Brwcws. Pwrpas y Gymdeithas yw i gynnal digwyddiadau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn y dref. Roedd y tri swyddog yn bresennol a dau berson arall. Penderfynwyd yn unfrydol nad oes pwrpas i'r gymdeithas bellach ac felly fe fydd hi'n dod i ben yn syth gyda'r arian yn y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i gyfrif y Bigwn fel papur newydd. Cynhaliwyd sawl digwyddiad i godi arian i'r Bigwn ac achosion eraill dros y blynyddoedd ond yn anffodus, prin fu'r gefnogaeth i Gymdeithas y Bigwn yn ddiweddar. Amlinellwyd gwendidau'r Gymdeithas yng ngholofn olygyddol ddi-flewyn ar dafod John Davies mor bell yn ôl a Ionawr 2009. Nodwyd ynddi na fydd digwyddiadau'n y dyfodol os nad oes cefnogaeth i ddigwyddiadau'r presennol. Gyda gobaith bydd cyfleoedd i gynnal digwyddiadau cymdeithasol dan faner y Bigwn yn gyffredinol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Nerys Davies (Ysgrifennydd) a John Geraint (Trysorydd) am eu gwaith cydwybodol dros y blynyddoedd.

Llifon Jones
(Cadeirydd)

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

# Elusennau'r Maer

Domestic Abuse Safety Unit
Uned Diogelwch Trais Teuluol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2019 yn dweud bod ar gyfartaledd 2 ferch yn cael eu lladd pob wythnos rhywle yng Nghymru a Lloegr, gan bartner neu cyn-bartner.
Yma yng Ngogledd Cymru mae gennym Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU) sydd yn barod ar unrhyw amser i roi cymorth i ferched a'u plant sydd yn dioddef trais neu sydd o dan fygythiad o drais yn y cartref. Mae yna hefyd wasanaeth i ddynion sy'n dioddef trais yn y cartref.
Nid rhywbeth sy'n digwydd i bobl sy'n byw yn bell i ffwrdd yw trais yn y cartref. Mae'n digwydd yma yn ein ardal ni a dyna pam fel Maer a Maeres rydym wedi dewis DASU neu 'Lloches i Ferched' fel un o'n elusennau am eleni.

credu
connecting carers
cysylltu gofalwyr

Yr ail elusen a ddewiswyd am eleni yw Gofalwyr Ifanc Sir Ddinbych (CREDU).

Gofalwyr ifanc yw'r plant hynny o dan 18 oed sy'n edrych ar ôl aelod o'r teulu sydd a salwch tymor hir neu sy'n anabl. Mae'r mudiad Gofalwyr Ifanc yn medru dod a gofalwyr ifanc at eu gilydd, yn medru rhoi cymorth ymarferol iddynt ac yn medru trefnu seibiant iddynt rhag y gwaith o ofalu am aelod o'r teulu.
Mae bod yn ofalwr ifanc ac yn gorfod rhoi cymorth i ymolchi a gwisgo, rhoi meddyginiaeth, siopa a glanhau'r tŷ yn drwm iawn ar berson ifanc. Mae gwneud hyn hefyd yn medru dwyn eu plentyndod gan effeithio ar eu gwaith ysgol a'u bywydau cymdeithasol gyda'u ffrindiau. Fel Maer a Maeres rydym wedi dewis y mudiad Gofalwyr Ifanc lleol fel ein hail elusen am eleni.
Rydym am drefnu dau ddigwyddiad a fydd tipyn bach yn wahanol i'r arfer gyda'r bwriad o godi swm teilwng i'r ddwy elusen haeddiannol yma.
Mi fydd y digwyddiadau yn cymryd lle yn Neuadd y Dref Dinbych. Mi fydd y cyntaf yn cael ei gynnal ar 22/1/22 sef Cabaret Santes Dwynwen gyda'r band jas enwog "Suzanne Mott".



Pedwarawd Susanne Mott

Band Celtaidd y "Wee Bag Band" fydd yn ymddangos yn yr ail ddigwyddiad ar yr ail o fis Ebrill.

**Mi fydd tocynnau ar gael yn Siop Clwyd ac ar-lein trwy wefan https:// www.denbightowncouncil.gov.uk/cy/newyddion-a-digwyddiadau/cabaret**

Gobeithio y medrwch gefnogi ein elusennau.
*Rhys a Lynn Thomas*

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

Eisiau gweithio gyda phlant bach?




Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.
Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!
Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –
www.meithrin.cymru/swyddi
Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –
www.meithrin.cymru/prentisiaeth
Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639
Rhif elusen: 1022320

# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Hoffwn ddiolch,
o waelod calon,
i'n holl gwsmeriaid
am eich
cefnogaeth
barhaus trwy
gydol y flwyddyn

MONOPOLY®
PRYNU ■ GWERTHU ■ RHENTU

01745 770575

denbighshire@monopolybuysellrent.co.uk




# Ysgolion lleol am ymuno a pharti enfawr yr Urdd



Siân Lewis a Mr Urdd

Ar y 25ain o Ionawr bydd yr Urdd yn cychwyn blwyddyn gyffrous o ddathlu canmlwyddiant y mudiad.
Bydd y dathliadau yn dechrau gyda Pharti Pen-blwydd mwyaf yn hanes y mudiad ar ddiwrnod Cariad @ Urdd. Bydd yr Urdd a'r genedl gyfan yn ymgeisio am ddau deitl GuinnessWorldRecords™ drwy gyd-ganu ac uwchlwytho fideos o'r gân eiconig, HeiMistar Urdd, i Twitter a Facebook. Cynhelir parti arbennig ar gyfer ysgolion Cymru yng nghwmni cyflwynwyr Stwnsh Sadwrn, a ddarlledir yn fyw ar BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.
Dywedodd Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd: "Does dim dwywaith fod y cyfnod ers mis Mawrth 2020 wedi bod y cyfnod mwyaf heriol yn ein hanes. O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid cau ein gwersylloedd a daeth ein gweithgareddau cymunedol, chwaraeon a chelfyddydol arferol i stop.
"Ond, rydym yn ail-adeiladu, ac mi fydd blwyddyn ein canmlwyddiant yn flwyddyn i'w chofio, gyda chynlluniau pob adran yn adlewyrchiad o'n hysbryd a'n huchelgais. Rydym hefyd yn buddsoddi yn sylweddol yn ein gwersylloedd a bydd tri agoriad cyffrous yn 2022; agoriad y Gwersyll amgylcheddol cyntaf o'i fath yng Nghymru ym Mhentre Ifan, Sir Benfro; agoriad Calon y Gwersyll yn Llangrannog ac agoriad Canolfan Ddŵr newydd yng Nglan-llyn."
"Galwaf ar holl ysgolion Cymru, aelwydydd, gwirfoddolwyr, busnesau a mudiadau, ac aelodau hen a newydd i ymuno ym mharti mwyaf ein hanes! Mae hwn yn gyfle i chi ddathlu ac yn gyfle i ni ddiolch i bawb sydd wedi chwarae rhan fach neu fawr i wneud yr Urdd yn fudiad allweddol bwysig i Gymru a'r Cymry. Cofrestrwch i fod yn rhan o'r parti a'r ymgais am ddau deitl Guinness World Records™ ddeufis i heddiw, ac i weld enw eich ysgol, aelwyd neu sefydliad ar fap o Gymru ar ein gwefan, a rhannwch eich bod wedi ymuno gan ddefnyddio #Urdd100."
Mae'n siŵr bydd nifer o ysgolion yr ardal yn cymryd rhan. Eisoes mae **Ysgol Twm o'r Nant** yn frwdfrydig. Dywedodd y pennaeth Mr Dafydd Davies 'Yn sicr byddwn ni, yn Ysgol Twm o'r Nant, yn cefnogi ac yn cymryd rhan yn nathliadau Canmlwyddiant yr Urdd. Rydym fel ysgol wedi elwa yn fawr o weithgareddau a chystadlaethau'r Urdd ar hyd y blynyddoedd ac rydym yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r dathliadau. Mae plant Cymru yn ffodus iawn o'r Mudiad sydd bellach yn cynnig arlwy eang o gystadlaethau a gweithgareddau i holl ddisgyblion Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymlaen at y 100 mlynedd nesaf!'
Bydd rhagor o weithgareddau'r canmlwyddiant yn cael ei cyhoeddi dros y misoedd nesaf.

**Digwyddiadau eraill Canmlwyddiant Yr Urdd**

Cynlluniau cyffrous i gynnal Gŵyl o fewn gŵyl ar benwythnos olaf **Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych**

Twrnamaint Urdd WRU Rygbi 7 bob ochor. 4-8 Ebrill

Cynhadledd Chwaraeon Ieuenctid Benywaidd cyntaf Cymru, sef #FelMerch, 5-6 Mawrth

Cyngerdd Dathlu Canmlwyddiant yr Urdd.

Prif bartner 3ydd sectorTîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad

Ymweliad Côr yr Urdd i Alabama

Partner i ŵyl North American Festival of Wales

Neges Heddwch ac Ewyllys Da. Lansio Cyfrol Hanes yr Urdd wedi ei ysgrifennu gan Myrddin ap Dafydd

Lansio pecyn addysg yr Urdd ar blatfform HWB. Arddangosfa yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan a chas cymunedol yn Amgueddfa Storiel, Bangor

Sioe ysgolion gan gwmni Mewn Cymeriad - 'Canrif Syr Ifan'






# Mentrau Newydd

Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn anodd i bob math o fentrau, rhai masnachol a rhai eraill. Braf felly yw gweld dwy fenter newydd wedi cychwyn yn Ninbych dros y cyfnod hwn. Un yn fusnes teuluol newydd gan Gymro Cymraeg lleol a'r llall yn Fenter Cymdeithasol. Bu gohebydd Y Bigwn draw i sgwrsio gyda sylfaenwyr neu weithwyr yn y ddwy fenter.


Eifion yn adnewyddu yr adeilad


Ystafell y Castell

## Y Copper Pot

Mae perchennog Y Copper Pot, Eifion Howatson, yn dipyn o gymeriad. Daeth ei hiwmor i'r amlwg o'i ateb cyntaf i'r ymholiad ynglŷn â chael erthygl yn Y Bigwn – "Iawn, os cai fod ar y 'centrepages'." oedd ei ateb gyda gwên ar ei wyneb.

Gweithio i'r gwasanaeth Ambiwlans oedd Eifion a prynodd adeilad y Copper Pot yn ngwaelod Stryd y Dyffryn gyda'r bwriad o'i droi yn dŷ. Erbyn hynny roedd wedi cael digon o weithio yn y GIG, yn bennaf oherwydd y ffordd roedd rhai aelodau o'r cyhoedd yn trin gweithwyr oedd yn rhoi o'i gorau. Er fod "y lle yn rhacs" gwelodd Eifion botensial yr adeilad a phenderfynodd ei droi yn gaffi. Roedd llawer o'i ffrindiau a'i deulu yn meddwl nad oedd yn hanner call.

Aeth ati i'w adnewyddu ei hun gyda chymorth aelodau eraill o'i deulu a ffrindiau. Roedd yn awyddus i ail-ddefnyddio defnyddiau o'r adeilad ac o lefydd eraill e.e. daeth distiau a lloriau o hen dŷ a ddymchwelwyd yn ddefnyddiol i greu pared.

Mae nifer o ystafelloedd yn y caffi. Mae wedi defnyddio thema'r Castell ar gyfer yr ystafell yng nghefn y prif ran. Defnyddiwyd yr hen simnai yn y gornel bellaf i greu awgrym o dŵr y castell. Yn y lolfa mae lluniau gan Goergina Haf yn addurno'r wal.

Wrth fynd drwy'r ardd gwelir rhan awyr agored sydd wedi bod yn ddefnyddiol oherwydd y pandemig a fydd yn fuan wedi cael to a sustem wresogi fel y bydd yn bosibl i'w ddefnyddio drwy'r flwyddyn. Tu hwnt i'r ardd mae adeilad sydd wedi ei droi'n ystafell, yr ystafell biano. Yno bydd cyfle i grwpiau ddod am noson o hwyl gyda'r piano ail law yn ganolbwynt.

Daeth yr enw o heb debot copr oedd yn eiddo i deulu Eifion. Mae hwnnw rŵan wedi ffeindio ei le yn ffenestr y caffi. Mae'r fwydlen yn cynnwys yr hyn fuasech yn ddisgwyl mewn siop goffi h.y. te a choffi, byrbrydau ond maent hefyd yn cynnig brecwast ac, o'u trefnu ymlaen llaw nosweithiau, Tapas ar y penwythnos. Mae Eifion yn ceisio cael y cynhwysion mor lleol ag sy'n bosibl. Mae'r coffi, er enghraifft, yn dod o Rhuthun.

Mae'n fusnes teuluol go iawn achos fod mam Eifion a'i fab yn helpu yn y caffi. Mae hefyd yn cyflogi 3 aelod o staff lleol yn ogystal a rhai rhan amser ar adegau.

Dymuna Y Bigwn bob lwc iddo yn y dyfodol.


Criw yn mwynhau Noson Tapas

# Y Tŷ Gwyrdd

Rheolwraig siop Y Tŷ Gwyrdd yw Sian Lloyd-Davies. Bydd llawer ohonoch yn adnabod Sian gan ei bod wedi byw yn Ninbych ers sawl degawd er mai yn Rhyl y cafodd ei magu yn un o deulu Gwasg Helygain a'i brawd, wrth gwrs, yw argraffydd Y Bigwn. Bu Y Bigwn sgwrsio gyda Sian am y siop. Wrth gwrs mae'r Tŷ Gwyrdd yn fwy na siop yn unig. Mae'n cael ei ddisgrifio fel Hwb Cymunedol a mae'n Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n fath o fenter gymdeithasol. Cafwyd cyfle i holi Sian a hefyd Marguerite Pearce, sylfaenydd a chyfarwyddwr y fenter ynglŷn â beth yn union oedd hyn yn olygu.

Eglurodd Sian fod y siop yn gwerthu nwyddau'r groser, nwyddau i'r tŷ a'r ardd. Mae'r cwbl ar ffurf nwyddau, rhydd i ail-lenwi eich poteli a'ch bagiau. Maent yn ceisio gwrando ar eu cwsmeriaid a chyflenwi yr hyn maent yn ofyn amdano, o gynhyrchwyr lleol, lle bo hynny'n bosibl, ac yn garedig i'r amgylchedd. Mae pob cyflenwr defnydd hylifol yn defnyddio sustem dolen gaeedig h.y. mae unrhyw gynhwysydd yn mynd yn ôl i'r cyflenwr i'w lanhau a'i ail ddefnyddio.

Dywedodd Sian fod "hon yn ffordd newydd o siopa" a bod "llawer yn cael eu nwyddau sylfaenol yno yn wythnosol." Mae siopa'n lleol hefyd yn rhan o'u neges wrth iddynt fod yn rhan o'r ymgyrch "Caru Busnesau Lleol" gan Gyngor Sir Ddinbych.



Sian, rheolwraig siop y Tŷ Gwyrdd

Defnyddiwch yr hashdagiau #CaruBusnesauLleol a #LoveLiveLocal i ddarganfod mwy.

Cychwynnwyd ar y fenter yn ystod y cyfnod clo a buont wrthi'n paratoi am fisoedd cyn agor ym Mai 2020. Mae tri person yn gyflogedig gan y gymdeithas, sef Marguerite, Sian a Lisa.

Yng nghornel y siop mae cornel fechan i blant chwarae yn ddiogel tra fod eu rhieni yn prynu eu nwyddau, rhywbeth na sydd ar gael mewn siopau eraill a sy'n rhan o ethos y fenter o fod yn fwy na siop yn unig. Mae gofodau stiwdio hefyd ar y lloriau uwch a'r bwriad yw datblygu eu defnydd er mwyn y gymuned. Bydd y fenter hefyd yn datblygu gweithgareddau mewn mannau eraill pan fo hynny'n addas er enghraifft bydd clinig trwsio yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref ar batrwm rhai tebyg sy wedi eu cynnal yn Rhuthun.

Bu gohebydd Y Bigwn hefyd yn sgwrsio gyda Marguerite fu'n egluro ychydig mwy am ei hun ac am y fenter.

Cafodd Marguerite ei magu yng Nghefn Meiriadog tan iddi fynd i'r brifysgol i astudio Daeareg. Ei swydd gyntaf oedd gyda prosiect hynod o lwyddiannus i adfywio ardal ddifreintiedig ym Manceinion. Roedd hynny yn ysbrydoliaeth iddi feddwl am sefydlu rhywbeth fyddai'n bywiogi'r gymuned yma yn Ninbych. Bu hefyd yn byw yn Awstralia am 8 mlynedd ond daeth hi a'i gŵr yn ôl i'r ardal 8 mlynedd yn ôl a mae ganddynt fusnes ymgynghorol yn y maes mwyngloddio. Roedd hi bob amser wedi meddwl nad oedd yna ddigon o gyfle i bobl brynu nwyddau mewn modd fyddai'n garedig i'r amgylchedd felly penderfynodd sefydlu'r fenter hon gyda'r siop yn ganolbwynt.

Cafodd y fenter llawer o gymorth gan Busnes Cymdeithasol Cymru. Wedi iddynt egluro beth oedd bwriad y prosiect cawsant y cyngor fod y disgrifiad yn ffitio y model o Gymdeithas Budd Cymunedol i'r dim. Yn syml mae hyn yn golygu fod y fenter yn cael ei rhedeg gan y gymuned er mwyn y gymuned. Dywedodd Marguerite eu bod yn "gwahodd y gymuned leol i awgrymu syniadau ar gyfer y dyfodol.

Mae gan y fenter 50 cyfranddaliwr a'r rhain sy'n penderfynu pa ddefnydd cymunedol a wneir o 50% o'r elw. Maent yn chwilio am fylchau yn y darpariaeth lleol. Un enghraifft o'r hyn maent yn wneud yw cyllido prosiect garddio teuluol.

Mae eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygu gweithdy trwsio yn Ninbych, darparu calendr o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â cyrff ac unigolion lleol a pharhau i chwilio am adeilad addas i'w berchnogi gan y gymuned sy'n rhoi mynediad i gadeiriau olwyn, pramiau ac ati yn ogystal a darparu cyfleusterau newid babanod.





Marguerite (canol) a'r cyfarwyddwyr

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/




## Arddangosyn newydd

Roedd cryn gyffro yn yr Amgueddfa pan gyrhaeddodd y radio Bush MB60. Radio o 1958 oedd yn boblogaidd iawn yn ei gyfnod, oherwydd ansawdd dda'r sain a gynhyrchai, a'i ddyluniad. Roedd yn dderbynnydd falfiau, a defnyddiwyd batris neu drydan i'w bweru. Lluniwyd y cabinet, a oedd ar gael mewn gwahanol liwiau, gan David Ogle, a ddyluniodd y Reliant Scimitar a'r car Ogle SX1000, ac mae ei gwmni 'Ogle Design' yn dal i fodoli heddiw. Yn 1959, rhyddhawyd y radio Bush TR82 gan gadw'r cabinet gwreiddiol, ond gan ddefnyddio derbynnydd transistorau yn lle falfiau. Yn 1961, rhyddhawyd y VTR103 oedd yn derbyn FM. Erbyn heddiw, Sainsbury's sy'n perchen yr enw 'Bush', ac mae'r radios yn cael eu cynhyrchu yn Tsieina, ac yn medru derbyn DAB.



Mae'r falfiau ar y chwith

CATalyst Systems - 01745 816611 Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

**Digwyddiadau**

'Hanes Radio' oedd testun David Lloyd, darlledwr a chyd-sylfaenydd Boom Radio, yn ein darlith ar-lein ddiweddar. Honnodd mai radio yw'r cyfrwng mwyaf 'agos atoch' a bod gan y cyflwynydd gysylltiad â'r gwrandäwr. Amlinellodd ddatblygiad radio o waith Marconi ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, sefydlu'r orsaf radio gyntaf '2MT' a ffurfio'r 'British Broadcasting Company' yn 1922. Yng Nghymru, dechreuwyd darlledu o Gaerdydd ar Chwefror 13eg, 1923, ac agorwyd gorsaf radio Abertawe, '5SX', yn 1924. Erbyn hyn, roedd y llywodraeth yn dechrau sylweddoli bod gan y cyfrwng ddylanwad, a sefydlwyd y 'British Broadcasting Corporation' yn 1926. Dechreuwyd darlledu i'r byd yn 1932 gyda'r 'Empire Service'.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, penderfynwyd gwladoli darlledu a datblygwyd yr 'Home Service' er mwyn codi calonnau'r boblogaeth. O fewn diwrnodau i ddiwedd y rhyfel, newidiwyd y gwasanaeth a ddarlledai i'r Lluoedd Arfog i'r 'Light programme'. Ond, roedd disgwyliadau pobl wedi newid, ac roeddent yn chwilio am raglenni ysgafnach ar orsafoedd pell, megis Radio Luxembourg. Yn hwyrach, bu gorsafoedd radio peirat yn darlledu o longau, gan gynnwys Radio Caroline yn 1964, gorsaf a ddarparai gerddoriaeth o fore gwyn tan nos. Yn 1967, lluniwyd deddf i atal y gorsafoedd peirat, a chychwynnodd Radio 1 yn yr un flwyddyn. Ar ôl y newid yn y llywodraeth yn y 1970au cynnar, roedd hi'n bosib sefydlu gorsafoedd radio masnachol - 'Swansea Sound Ltd' oedd yr un gyntaf yng Nghymru. Yn 1977 sefydlwyd Radio Cymru a dechreuodd Radio Wales yn 1978. Erbyn hyn, mae'n bosib gwrando ar Radio Cymru ar FM, Dab



Meicroffôn Radio BBC o'r 1950au

mewn rhai ardaloedd ac ar-lein!

Mae David Lloyd yn gyd-sylfaenydd Boom Radio, gorsaf fasnachol, annibynnol, genedlaethol, newydd ar gyfer y 'Baby Boomers', pobl a gafodd eu geni rhwng 1946 a 1964, yr orsaf radio gyntaf i dargedu'r oedran yma. Mae'n wahanol i bob gorsaf arall gan fod y cyflwynwyr i gyd yn gweithio o'u cartrefi. Eu bwriad yw cystadlu yn erbyn Radio 2.

BOOM radio



Gwylfa Hiraethog heddiw

**Y Darlithiau nesaf**
Dyma'r darlithiau ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru:

Ar Ragfyr 10fed, bydd Eira Jones yn sgwrsio yn Gymraeg am **Plaspren – y Plasty Coll**, sef Gwylfa Hiraethog, y tŷ crand ar y mynydd uwchben Llyn Brenig lle cafodd ei magu. Adeiladwyd y "plas pren" cyntaf yn 1898, a datblygwyd plasty moethus ar y safle yn hwyrach, oedd yn gartref haf i'r Arglwydd Devonport, ar gyfer saethu grugieir ar y mynydd. Erbyn heddiw, dim ond pentwr o gerrig sydd ar ôl. Cawn gipolwg ar hanes cyfoethog y plas gan Eira.

Ar Ionawr 21ain, 2022, bydd David Sprake, Uwch-ddarlithydd yn adran Beirianneg Adnewyddadwy a Chynaliadwy Prifysgol Glyndwr, yn trafod **Y Newid yn yr Hinsawdd a Sut mae ei Drwsio**, yn Saesneg. Bydd yn amlinellu'r wyddoniaeth sy tu ôl i'r newid yn yr hinsawdd ac yn ystyried rhai o'r dulliau y gellir yn ymarferol eu defnyddio i liniaru ar y newidiadau a thrwsio'r hinsawdd. Bydd hefyd yn sôn am yr hyn sydd wedi bod yn rhwystro hyn rhag digwydd.

**Ymweld â'r Amgueddfa**
Bydd yr Amgueddfa ar gau dros y gaeaf, ond mae'n bosib trefnu ymweliad ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni ar gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

Nadolig llawen i holl ddarllenwyr **Y Bigwn**. Diolch am eich cefnogaeth!

# Difyrion Digidol

Mae'n anodd coelio mai dyma fy negfed colofn bellach a'r tro yma mae'n gyfle da i ddweud mwy am fy swydd gyda rhaglen Cymunedau Digidol Cymru. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a'i redeg gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Yr ydym yn cynnig hyfforddiant, cyngor, cefnogaeth a chymorth digidol i gymunedau led-led Cymru. A'r peth pwysig i'w nodi yw fod yr holl hyfforddiant a'r cymortham ddim i fudiadau a sefydliadau sydd angen cymorth i wella eu sgiliau digidol.

Mae'r pandemig heb os wedi dod a chynhwysiad digidol i lygad y cyhoedd. Yr wyf wedi bod yn gweithio yn y maes hwn ers bron i ddeng mlynedd a than y cyfnod hwn, mae'r term cynhwysiad digidol wedi peri dryswch ar adegau. Ond yn ystod y cyfnod diweddar, gellir dadlau fod cynhwysiad digidol wedi symud camau breision. Yn ystod llynedd ac eleni, roedd yn rhaid i bawb ddeall sut i ddefnyddio technoleg er mwyn gallu cadw mewn cysylltiad gyda theuluoedd a ffrindiau, boed yn hen neu'n ifanc. Daeth yr enw Zoomallan o 'nunlle a bu miloedd o aelwydydd yn cymryd rhan mewn cwisiau wythnosol. Hawdd oedd egluro beth oedd cynhwysiad digidol yn yr amgylchiadau. Dyma oedd yr realiti newydd a bu'r dechnoleg yn achubiaeth i leddfu unigrwydd mewn cyfnod anodd yn enwedig mewn cartrefi gofal. Dychmygwch sut fyddai pethau wedi bod dri deg o flynyddoedd yn ôl petai cyfyngiadau wedi digwydd? Byddai cadw mewn cysylltiad wedi bod yn amhosib gyda archebu bwyd a nwyddau ar-lein yn rhywbeth anghredadwy. Mae'r cyfnod hwn wedi dangos fod technoleg yn ei hun, a'r gallu i ddefnyddio technoleg yn gorfod bod yn gwbl hanfodol i bawb ohonom ond daeth pob gweithgaredd cymunedol i stop.

Yn gynharach eleni, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb yn ystyried effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg. O fewn yr ymateb, fe addawyd y byddant yn mynd ati daclo'r rhwystrau sydd wedi eu hamlygu yn ystod y pandemig sy'n 'allgau nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn ddigidol'.

Yn dilyn hyn, fe drefnwyd cynhadledd *Ateb yr Heriau Digidol*: *er budd y Gymraeg a'i Chymunedau* gan raglen Cymunedau Digidol Cymru ym mis Medi a mynychodd degau o fudiadau cymunedol sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg o bob rhan o Gymru. O'r gynhadledd hon yr esgorodd y syniad i sefydlu rhwydwaith barhaol i daclo allgauedd digidol yn unol ag ymateb Llywodraeth Cymru. Y bwriad gyda'r rhwydwaith yw i drafod a chydweithio er budd y Gymraeg a'i chymunedau. Os hoffech chi fel gwirfoddolwr neu fudiad fod yn rhan o'r rhwydwaith, gadewch imi wybod.

Fel papurau bro, fel eisteddfod leol, fel cangen leol o Ferched y Wawr, fel gwirfoddolwyr a mudiadau yn y gymuned, byddai'n dda cael eich safbwyntiau – ydych chi'n gweld gwerth yn y colofnau hyn i hybu defnydd o dechnoleg? Tybed oes ganddoch chi safbwyntiau ar sut i wella'r gagendor digidol? Wrth gwrs, nid yw technoleg yn berffaith o bell bell ffordd ond mae'n holl bwysig fod gan bawb y cyfle, y chwarae teg a'r gallu i ddefnyddio'r gwasanaethau digidol sydd ar gael. Ein gwaith ni yw pontio'r bwlch.

Mae'r pecyn o hyfforddiant sydd gennym yn anelu i bontio'r bwlch, i ysbrydoli, neu gynorthwyo gyda'u sgiliau digidol ac ysgogi gwirfoddoli digidol yn y cartref neu yn y gymuned. Felly, beth am gysylltu deian.apRhisiart@wales.coop, ac fe allwn drafod ymhellach.

# Capel y Fron

Arweiniwyd ein gwasanaethau yn ystod Suliau Medi, Hydref a Tachwedd gan Mr Huw Vaughan Jones, Parch Nesta Davies, Miss Debbie Roberts, Y Parch Eric Greene a’r Gweinidog Y Parch Andras Iago. Mae ein diolch i Mrs Iona Edwards a Mrs Eiri Jones am eu cyfraniad wrth yr organ. Cofiwn yn arbennig am rai o’r aelodau sydd wedi colli anwyliaid-Mrs Megan Williams, Miss Morfydd Williams a Mr a Mrs Erfyl Williams, Erfyl wedi colli chwaer-rydym yn cydymdeimlo gyda chi. Trist iawn oedd derbyn y newyddion am farwolaeth Y Parch EifionG.Jones bore Sul Hydref 10fed. Fe ddaeth yma i’r Fron a’r Brwcws i weinidogaethu ym 1965 ac fe fu gyda ni am 39 o flynyddoedd. Yr ydym yn cydymdeimlo gydag Eilir, Mirain, Llŷr a’u teuluoedd yn eu profedigaeth.



## Teyrnged i’r Parch Eifion Jones

gan y plant a ddarllenwyd yn ystod y gwasanaeth angladd

Ganwyd Eifion ar y cyntaf o Chwefror 1934, y plentyn canol i Silfanus a Jane, ac yn frawd i’r diweddar Mair, a Rhiannon.

Roedd o yn ôl pob sôn yn hogyn direidus , ond ddim y mwyaf cydwybodol yn yr ysgol ac fe adawodd yn gynnar i weithio yn yr orsaf reilffordd yng Nghonwy a Chyffordd Llandudno. Er hynny roedd na alwad i’r weinidogaeth yn mudlosgi tu mewn iddo wedi ei ysbrydoli gan y pregethwyr fyddai yn ymweld a chapel Carmel yng Nghonwy.

Fe ailgydiodd yn ei astudiaethau er mwyn cael ei ordeinio yng Ngholeg Clwyd y Rhyl. Arweiniodd hyn at Goleg y Bala a‘r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth gan gyfarfod ffrindiau coleg ddaeth yn ffrindiau oes. Roedd gan y coleg dîm pêl-droed llwyddiannus a chydig yn fudr ar y pryd. Hwyrach fod hi yn anodd i rai gredu roedd fy nhad yn gefnwr chwim a chadarn yn y tîm enillodd gwpan adrannau y Coleg yn 1960.

Yn ystod y cyfnod yma, cyfarfu â Mam ( Gwenllian) a phriododd y ddau ar ddiwrnod ola'r flwyddyn 1960. Cafodd ei alwad gyntaf i gylch eglwysi Llangadfan a Llanerfyl yr un flwyddyn a chafodd y cwpl ifanc groeso cynnes iawn gan yr ofalaeth ac roeddem ni yn dychwelyd ar wyliau teuluol flynyddoedd wedyn.

Bu yn weinidog am 60 mlynedd, gan wario y rhan helaeth o‘i yrfa yn Nyffryn Clwyd yn fugail ar Gapel y Fron a‘r Brwcws ac yn ddiweddarach capeli Llanefydd a’r cylch a chapel Prion a’r Glyn.

Doedd na ddim bwriad i rafu gan Dad ar ôl ymddeol a chydiodd yn yr awenau fel gweinidog yn y Fflint, Caerwys, Corwen a’r cylch ac yn Bethel ac Ebeneser Hen Golwyn.

Dyna ddigon o ffeithiau am Dad mi fyddai’n well ganddom ni adlewyrchu ar gymeriad a gorchestion Dad.

### Dyn Diwyd

Heb os roedd Dad yn ddyn diwyd roedd yn dal i weithio ac yn brysur yn ysgrifennu pregethau yn yr wythnosau olaf a fyntau yn 87 mlwydd oed. Roedd y weinidogaeth a bywyd yn frethyn wedi ei gydblethu i fy nhad. Doedd o ddim yn gallu dirnad pam y byddai unrhyw un yn penderfynu ymddeol yn gynnar wir, ac yn sicr roedd y cyfle i barhau gyda’i yrfa wedi i ni golli mam wedi ei gynnal a’i ysgogi o yn bersonol yn y blynyddoedd diwethaf.


Ond doedd ei brysurdeb ddim yn unig yn ymwneud a’r weinidogaeth. Fe fydd rhai ohonoch yma heddiw yn cofio Mrs Bartley oedd yn berchen Siop Y Fron yma ar Ffordd y Rhyl. Fe fyddai Dad yn gwario oriau yn torri coed tân i’w werthu yn y siop er mwyn enill swllt fach ychwanegol.

Pan oeddwn yn fyfyriwr fe fyddai Dad a finnau yn mynd i bluo Twrcwn yn Fferm Tŷ Coch bob Mis Rhagfyr gan fwynhau yr hwyl a’r cinio da yn ogystal a’r tâl am y gwaith caled. Ond doedd Dad byth yn gwybod pryd i roi gorau i’r gwaith serch hynny ac fe gafodd Mam ei deffro o drwmgwsg un noswaith wrth i Dad siarad yn braf a phluo ei frest ei hun yn ei gwsg!

Yr hyn oedd wrth ei ddant fwyaf wrth gwrs oedd casglu a gwerthu Antiques a thu ôl i’r goler gron roedd yna giamstar am daro bargen.

Yn anffodus mi oedd o’n well am gasglu hen bethau nag oedd o am eu gwerthu felly os oes yna rhywun yma heddiw a blys am brynu Cloc neu lamp


Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

baraffin dewch i'n gweld ni ar ôl yr angladd ond cofiwch mi ddysgodd bob un ohonom ni sut i ffeirio.

**Dyn Doniol**

Mi oedd fy nhad heb os yn ddyn digrif. Yn fwy o gymeriad Ryan na Ronnie! Mi oedd wrth ei fodd yn diddanu a gwneud i'w deulu neu gyfeillion chwerthin. A doedd dim angen unrhyw berswâd arno i dynnu stumiaugwrion neu wisgo het ddoniol i wneud i blant chwerthin.
Pan yn fachgen, ar gais ei fam, fe aeth ag ymwelwyr ar daith gerdded i ben mynydd Conwy.Wrth gyrraedd y copa fe gyhoeddodd ei fwriad i neidio o'r copa cyn gneud hynny yn ddisymwth. Yn ddiarwybod i'r ymwelwyr roedd yna dir gwastad islaw.
Mi oedd wrth ei fodd mewn priodasau. Yr unig beth fyddai yn ei siomi fyddai peidio cael gwahoddiad fel gweinidog i'r parti nos. Y Birdy song oedd ei ffefryn ac fe gafodd fodd i fyw ym mhriodas fy nghyfnither tra'n dawnsio gyda perfformiwr oedd yn dynwared Elvis!!
Mi roedd yn ein denu ni fel plant i ymweld ag unrhyw siop gwerthu jôcs ac roedd yn ein annog ni i chwarae'r jôcs hynny ar unrhyw achlysur er enghraifft pan nath un ohonom ni fynd a llygoden ffug i'r Ysgol Sul gan wneud i'r athrawes redeg am ei bywyd drwy'r Capel.

**Dyn Duwiol**

Roedd ffydd Dad yn Nuw ac ym mhŵer gweddi yn ddiamheuol. Mi oedd yn un o'r ychydig bobol i mi ei adnabod oedd yn gweddïo bob nos. Fe fyddai'n cynnwys ni fel teulu yn ei weddïau yn rheolaidd ond rwyf hefyd yn gwybod ei fod wedi gweddïo dros nifer fawr ohonoch sydd yma heddiw pan yn tybio eich bod angen cymorth.
Roedd ei ffydd yn Nuw mor gadarn nes iddo ymwrthod â gwasanaeth cenedlaethol. Bu'n rhaid iddo deithio i Gaerdydd gyda'i gyfaill George Emlyn i wynebu tribiwnlys. Roedd Gweinidog profiadol wedi tywys y ddau i'r tribiwnlys ond doedd dim golwg o'r ddau ŵr ifanc pan oedd angen clywed y dyfarniad. Roedd George Emlyn a Dad di mynd am baned a sgwrs i'r caffi agosaf!
Mae sawl un dros y blynyddoedd wedi sylwi ar gyfoeth a'r cysur oedd i'w gael wrth wrando ar ei lais. Roedd yn fendith ac yn fraint i ni fel plant ei fod wedi gwasanaethu ym mhob un o'n priodasau ac wedi bedyddio pob un o'i wyrion a wyresau.
Fe ranodd Ken cymydog i Dad hanes gyda mi yn ddiweddar. Roedd yn teimlo'n ddigalon iawn wrth deithio adref o angladd ei fam. Wrth gyrraedd Betws Y Coed fe benderfynodd droi'r radio mlaen am gwmni. Fe glywodd lais Dad yn cymryd gwasanaeth ac fei gysurwyd gan y llais ac fe wyddai y byddai popeth yn iawn.
Doedd Dad ddim yn sych dduwiol. Y bobol a'i weithredoedd oedd yn bwysig iddo fo nid yr adeilad na'r mân reolau a allai lesteirio ar y ffydd Gristnogol.

**Dyn Teuluol**

Roedd Dad yn ddyn teuluol mewn sawl ffordd. Wrth gwrs roedd yn dad ymroddgar i ni oll fel teulu. Yn hynod gefnogol, gofalgar ac yn gweddïo trosom. Roedd yn arbennig o falch fod y tri ohonom wedi dilyn gyrfaoedd ym myd addysg a iechyd. Roedd hefyd yn ymhyfrydu yn ei wyrion a'i wyresau ac yn yr wythnosau olaf cyn iddo ein gadael ni fe fynegodd nad oedd yn barod i fynd gan ei fod yn dymuno aros i'w gweld yn ffynnu a llwyddo.
Ond mi roedd Dad yn grediniol hefyd ein bod ni gyd yn blant i Dduw. Mae nifer fawr ohonoch yma wedi crybwyll sut y bu i Dad eich cynnal fel aelod ychwanegol o'r teulu pan eich bod yn profi tymhestloedd bywyd bo hynny yn anffawd teuluol yn waeledd neu'n alar.
Fe dalodd hynny ar ei ganfed iddo yn ystod ei waeledd ei hun drwy'r holl garedigrwydd a dderbyniodd gan lawer iawn ohonoch - bo hynny yn alwadau ffôn neu ymwelwyr i'r cartref. Roedd yn gwerthfawrogi pob un ond yn arbennig y rhai a ddaeth a chacen, sgon neu bwdin reis gyda hwy.

Wrth derfynu felly mi nes i grybwyll gynnau ei waith diwyd ac fel mae'n digwydd mi oedd Dad wedi paratoi y bregeth nesaf na chafodd gyfle i'w thraddodi oherwydd ei afiechyd. Mi oedd yn un dda yn ôl Dad - yn eithaf hir ac wedi ei ailgylchu yn gelfydd ganddo o'r gwreiddiol yn 1964.
Felly yn unol a'i ddymuniadau 'rwyf am ei phregethu i chi heddiw.
Dim ond tynnu coes. Dwi'n siŵr y byddai'n nhad yn gwerthfawrogi y jôc a gobeithio ei fod yn gwerthfawrogi yr hyn da ni wedi ei ddeud amdano heddiw. Diolch



# YSGOL TWM O'R NANT

Dyna fis arall wedi hedfan a phawb wedi mwynhau wythnos o wyliau hanner tymor. Mae bwrlwm y Nadolig wedi cychwyn yn gynnar yma yn Ysgol Twm o'r Nant, gyda phob uned yn paratoi at eu sioe Nadolig. Yn anffodus ni fydd rhieni yn cael dod i weld y perfformiadau yn fyw unwaith eto, ond bydd pob un yn cael ei yrru allan yn rhithiol er mwyn i bawb gael eu mwynhau. Edrychwn ymlaen at gael clywed carolau yn llenwi waliau yr ysgol a gliter a thrimins nadolig ymhobman.

Trist iawn oedd clywed bod Mrs Meira Jones, uwch gymorthyddes yn yr Uned dan 5 yn ymddeol o'i swydd ddiwedd y tymor yma. Mae hi wedi bod yn aelod gwerthfawr o staff yr ysgol ers dros 41 o flynyddoedd, ac wedi dysgu a rhoi phrofiadau arbennig i sawl oedolyn, pobl ifanc a phlant yr ardal. Rydym yn dymuno pob lwc iddi yn ei hymddeoliad ac yn diolch yn fawr iawn am yr holl wasanaeth y mae hi wedi ei roi i'r ysgol. Os hoffai unrhyw un roi cyfraniad i dysteb Mrs Meira Jones, gallwch wneud hynny drwy alw i mewn i swyddfa yr ysgol.



Rydym hefyd wedi bod yn gwneud defnydd o'r pwmpenni a ddefnyddwyd cyn hanner tymor drwy ddatblygu sgiliau man y disgyblion drwy ddefnyddio morthwyl yn ddiogel.

Yn ystod wythnos gwrth-fwlio cawsom ddiwrnod lle ddaeth y staff a disgyblion i'r ysgol mewn sanau od. Aethom ati i gyfatebu sanau ar y lein ddillad a hefyd dylunio sanau lliwgar ein hunain.

Ein thema hanner tymor yma ydy 'Heddwch o'r Diwedd' rydym yn edrych ymlaen at wisgo ein pyjamas i'r ysgol dydd Gwener a chasglu llawer o arian tuag at Plant Mewn Angen.








**Uned dan 5**

Hwre i Noson Tân Gwyllt! Dyma'r tro cyntaf i nifer o ein disgyblion i weld tân gwyllt! Am hwyl a gawsom yn dysgu am hanes Guto Ffowc. Cawsom goelcerth a siocled poeth yn yr ardal tu allan. Dysgom am 'r' am roced a gwnaethom wreichionen allan o siocled a ffyn bara. Rydym hefyd wedi bod yn ymarfer ein sgiliau cyfri a thynnu gyda rocedi a gwnaethom rocedi 2D.

**Uned dan 7**

Rydym wedi cael dechrau arbennig i'n thema yr hanner tymor sef 'Dathliadau.' Cawsom amser difyr yn dysgu am Diwali a dathliadau Tân Gwyllt. Yna daeth neges gan Pydsi yr Arth er mwyn i ni drefnu Parti Pydsi ar ddiwrnod Plant mewn Angen - am sbri! Byddwn wrthi yn paratoi tuag at ddathliadau'r Nadolig nesaf. Bydd actio, dawnsio, canu a digon o gyffro yn yr Uned Dan 7 yn ystod yr wythnosau nesaf!











Uned dan 7





**Uned dan 9**

Gyda cyffro noson tan gwyllt i ddechrau'r hanner tymor, cawsom weithgareddau yn ein cyfnod heriau oedd yn ymwneud a hyn. Tasg y her creadigol oedd creu llun noson tan gwyllt a dysgodd y plant sut i wnïo gwreichion tan gwyllt er mwyn creu mwy o effaith i'w darlun.





Rydym eisioes wedi cael rhoi ein barn ar lenwadau mewn brechdanau gwahanol a chreu graffiau o'u hoff fwyd.



Hefyd rydym wedi bod yn edrych ar ein dannedd gan ddysgu eu henwau a'u swyddogaeth. Cawson hefyd gynnal arbrawf i weld faint o blac oedd ar ein dannedd.



Cafodd y plant hwyl yn ein her STEM drwy orfod creu roced eu hunain a gweld pa mor bell y gallai deithio yn defnyddio gwelltyn yn unig.

Ein thema yr hanner tymor yma yw Gourmet Byd Eang. Rydym wedi bod yn dysgu am ba fwydydd sydd yn dod o wahanol wledydd. Rydym hefyd am gynnal diwrnod lle bydd pawb yn yr uned yn cael dod i'r ysgol yn gwisgo gwisg traddodiadol o wledydd gwahanol a byddwn yn blasu bwydydd o wledydd gwahanol hefyd.
Rydym eisoes wedi cael rhoi ein barn ar lenwadau mewn brechdanau gwahanol a chreu graffiau o'u hoff fwyd

Ar ddechrau ein wythnos o weithgareddau ar gwrth fwlio daeth y plant i'r ysgol yn gwisgo sanau od. Cawsant gyfle hefyd i ysgrifennu rysáit ar beth sydd yn gwneud ffrind da.

**Uned dan 11**

Wel wir rydym wedi cael llawer o hwyl y tymor yma yn yr uned dan 11. Or diwedd cawsom ein diwrnod faciwî lle roedd y plant (a'r plant mawr) wedi cael modd i fyw. Ar y diwrnod yma, cafodd y disgyblion gyfle i wneud gweithgareddau hwylus, ac ail fyw bywyd yn ystod yr Ail Ryfel byd. Roedd rhai wrthi'n brysur gyda Mrs Roberts a Mr Williams yn coginio cawl ac eraill yn dysgu wrth gyfeirnodi battleships.





I ddiweddu'r diwrnod cafodd y disgyblion gyfle i rannu eu hanes ar sgrin werdd a phaentio dinasoedd yng nghyfnod y blits. I gloi y diwrnod arbennig yma, cawsom barti i gael dathlu diwrnod I'r brenin.

Hoffwn hefyd longyfarch tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol am eu perfformiad pêl-droed yn erbyn ysgol Frongoch mewn gem gyfeillgar. Er nad oedd y canlyniad yn ein ffafrio, roedd hi'n gem a hanner!




# Sul Y Cofio

Ar dudalen 23 mae yna luniau o seremoni Sul y Cofio yn Ninbych. Dwi'n sylweddoli fod y diwrnod hwn yn bwysig i lawer o bobl yn enwedig rhai sydd wedi colli anwyliaid mewn rhyfel. Serch hynny rhaid i mi gyfaddef fod gen i amheuon ynglŷn â threfniadau Sul y Cofio fel y mae heddiw. Dylai'r diwrnod fod yn ddiwrnod i gofio pawb sydd wedi marw oherwydd rhyfel, pawb o bob gwlad, boed yn filwyr neu'n bobl gyffredin. Dylai'r pwyslais hefyd fod hefyd ar alw am heddwch.




Mae gweld rhai gwleidyddion yn gwisgo'r Pabi Coch sydd i fod yn cefnogi cyn-filwyr pan mae'r llywodraethau yn methu eu cefnogi go iawn yn ymddangos i mi yn gwbl ragrithiol. Chwarae teg i Lywodraeth Cymru, hi ydi'r unig lywodraeth yn y DU sydd a darpariaeth iechyd meddwl arbennig ar gyfer cyn-filwyr. Serch hynny mae lle i wella.

Mae'r Lleng Brydeinig,




sy'n trefnu apêl y pabi coch yn honni nad ydynt yn dathlu rhyfel ond roeddent yn hapus i werthu poteli rym gyda dolen siâp pin grenâd nes i bwysau gael eu rhoi arnynt i newid. Maent hefyd wedi derbyn nawdd gan gwmnïau arfau, rhywbeth od os ydi Sul y Cofio i fod i gyflwyno y neges o 'byth eto' fel yr oedd yn wreiddiol.

Mae'n chwithig i mi gweld plant mewn lifrai milwrol yn mynychu'r seremonïau. Y DU yw un o'r ychydig wledydd lle mae plant (rhai dan 18oed) yn gallu ymuno a'r fyddin. Dydyn nhw ddim yn cael eu hystyried yn ddigon hen i wneud llawer i benderfyniad ond maent yn ddigon hen i benderfynu hyn. Od iawn.

Byddwn yn gwbl hapus gyda Sul y Cofio lle mae'r Pabi Gwyn yn cael lle teilwng.

Pwrpas y Pabi Gwyn yw

1. Cofio pob dioddefwr rhyfel
2. Ymroddi i heddwch
3. Herio dathlu rhyfel

Nid rhywbeth newydd ydi hwn. Cychwynnwyd yr arfer yn 1933 gan fenywod oedd wedi colli anwyliaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf ond yn gweld digwyddiadau Sul y Cofio yn dod yn fwy milwrol hyd yn oed yr adeg hynny. Galwasant am ail gynnau yr ysbryd 'Byth eto' oedd yn gryf yn 1918.

Hoffwn nodi mai barn golygydd y mis sydd yma a nid ydynt o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn y tîm golygyddol.

# O Ddinbych i La Liga



**1. Ym mha brifysgol wyt ti ac ar ba flwyddyn, ac am ba hyd wyt ti yn Sbaen?**
Dwi heb gyrraedd yr oedran i fynd i Brifysgol eto. Ar ôl gorffen TGAU nes i fynd i wneud cwrs BTEC Lefel 3 mewn Sports Development and Coaching gyda LLS sydd yn gwmni o Lerpwl ond hefo hybiau yng Nghymru ac Iwerddon. Roeddwn i yn gwneud y cwrs yn Prestatyn. Dwi rŵan yn gwneud yr ail flwyddyn. Byddaf yn gorffen mis Gorffennaf nesaf ac wedyn yn gobeithio mynd i Brifysgol yn unai Sbaen neu gwlad arall.

**2. Sut gest ti dy ddewis i fynd i Sbaen?**
O'ni wrthi yn gwneud blwyddyn 1 y cwrs yn Prestatyn a daeth y cyfle dros e-bost gan Steven Gerrard Academy sydd yn rhan o LLS. Nes i wneud cais a chael gwybod dau fis wedyn fy mod wedi cael lle. Felly dwi rŵan yn gwneud ail flwyddyn y cwrs BTEC yn Alicante gyda'r un cwmni.

**3. Be wyt ti'n ei wneud yno?**
Dwi'n chwarae pêl droed bob dydd, yn gwneud y cwrs BTEC ac yn mynd i wersi Sbaeneg dwy waith yr wythnos. Rydan ni hefyd yn mynd i'r gym yn ddyddiol ac yn cael, cefnogaeth ffitrwydd. Rydan nin byw mewn villa, 30 ohonon ni rhwng dau villa. Mae gynnon ni rhywun yn gwneud bwyd i ni a rhywun fel rhiant cefnogol.
Pan rydan ni'n cael amser sbâr, dwi'n mynd i'r traeth neu allan i gael bwyd a chymdeithasu.

**4. I ba dîm wyt ti'n chwarae ac ym mha league ydach chi?**
Dwi'n chwarae gyda Steven Gerrard Academy yn Alicante City FC. Ar hyn o bryd dwi'n chwarae o dan 19.
Mae'r league yn dod o dan 2nd Regional (ESP). Dan ni'n chwarae yn erbyn ardaloedd eraill o Sbaen fel Benidorm a Elche.

**5. Pa safle wyt ti'n chwarae?**
Dwi'n chwarae safle cefnwr chwith.

**6. Oeddet ti'n arfer chwarae i dîm yn ôl adre?**
Dwi wedi chwarae i Glwb Pêl Droed Dinbych ers yn 8 oed. Cyn dod i Sbaen, o'ni yn lwcus i gael rhai gemau gyda'r tîm cyntaf. Hefyd dwi wedi bod yn rhan o academi Bala dros y blynyddoedd diwethaf.

**7. Be ydy'r gwahaniaeth rhwng pêl-droed yn Sbaen a phêl-droed yng Nghymru? Sut hwyl wyt i wedi'i gael arni?**
Mae'n anodd weithiau gan nad ydach yn gwybod be mae nhw am wneud nesaf gan eu bod yn siarad yn Sbaeneg.
Mae'r pêl droed yn Sbaen yn fwy technegol dwi'n meddwl.

**Gethin Rogers**
**Penblwydd hapus**
Llongyfarchiadau ar ddathlu dy benblwydd yn 18 oed ar Dachwedd 28ain. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.


**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333
Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900





Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Massey Ferguson Fendt Pottinger

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES
29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd,Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

**Clwb Pêl-Droed Dinbych**

Mae Dinbych ar hyn o bryd ar frig Cynghrair Lockstock Ardal Gogledd Orllewin ar ôl tair buddugoliaeth ac un golled yn y mis diwethaf. Mae'r gystadleuaeth yn agos ar gyfer y safle cyntaf gyda Phorthmadog, Mold Alexandra, Llanuwchllyn a Llanrwst i gyd yn agos wrth draed Dinbych.

Y Felinheli oedd ymwelwyr Central Park yng nghanol mis Hydref ble gwelwyd buddugoliaeth o 6-0 i Ddinbych. Daeth y goliau gan Jake Walker (2) Sam Jones (2), Mike Sharples a'r chwaraewr ifanc Aled Williams a ddaeth ymlaen fel eilydd ar gyfer ei gêm gyntaf i'r tîm cyntaf. Fe greodd Williams, sydd o Abergele, argraff dda ar y rheolwr, Dewi Llion Jones gyda'i berfformiadau i'r tîm Ieuenctid ac i'r Ail Dîm. Roedd yn haeddu ei alwad i'r Tîm Cyntaf a sgoriodd gôl orau'r diwrnod gyda saethiad o 10 llathen i gefn y rhwyd.

Colli oedd hanes Dinbych oddi cartref yn erbyn Llay Welfare a hynny o 5-1, a'r gêm gyntaf iddynt golli yn y gynghrair y tymor hwn. Wrth chwarae yn erbyn gwyntoedd cryfion, roedd hi'n 2-0 i'r tîm cartref erbyn hanner amser. Er i Ddinbych ddeffro yn yr ail hanner, cafodd Llay gic o'r smotyn gan ymestyn ymhellach ar y blaen. Er i Sion Jones sgorio un i Ddinbych, gorffennodd y gêm yn 5-1 a'r ddau dîm i lawr i 10 chwaraewr gyda chefnwr Dinbych, Stuart Jones yn derbyn cerdyn coch am dacl hwyr.

Wythnos yn ddiweddarach ac roedd Dinbych yn ôl yn ennill wrth iddynt drechu Brymbo o 8-1 gyda goliau gan Jacob Barratt (3) Jake Walker (2), Sam Tate (2) a Mark Roberts. Cafodd y dorf o 250 o bobl wledd o goliau a helpodd y fuddugoliaeth tuag at ymgyrch Dinbych i gael dyrchafiad ddiwedd y tymor.

Ar ôl y gêm, fe dalodd y chwaraewyr deyrnged i'r diweddar Will Pierce Jones, oedd yn un o wirfoddolwyr y Clwb drwy fynychu noson er cof amdano ar beth fyddai dathliad ei ben-blwydd yn 70 oed. Helpodd Will ei wraig yn y Caffi Coch ar ddiwrnodau gêm ac roedd y chwaraewyr i gyd eisiau dangos eu gwerthfawrogiad ohono iddyn nhw fel chwaraewyr a'r Clwb.

Saith diwrnod yn ddiweddarach a gwelodd y dorf o 287 o bobl fuddugoliaeth wych o 3-0 yn erbyn Llandudno Albion gyda goliau gan Paul Fleming , Jacob Barratt a Sam Jones wrth i Ddinbych symud i frig y tabl.

Unwaith eto, mae'r Clwb wrth eu boddau gyda'r ffordd mae cymuned Dinbych yn dod at ei gilydd yn wythnosol i gefnogi'r tîm gyda mwy a mwy o gefnogwyr yn Central Park yn cefnogi dynion Dewi Llion. Mae gan y Clwb un o feysydd chwarae gorau gogledd Cymru a'r gemau nos Wener yn cael eu gweld fel nosweithiau cymdeithasol i drigolion Dinbych.

Pris mynediad i gemau'r Tîm Cyntaf yw £4 i oedolion a £2 igonsesiynwyr.


Mae'r Ail Dîm bellach dan reolaeth Gethin Jones wedi i'r cyn-reolwr, Nick Hailes gamu o'r llyw oherwydd ymrwymiadau gwaith a theulu. Cafodd eu gêm yn erbyn Porthmadog ei gohirio wedi i sawl chwaraewr Porthmadog brofi'n bositif i Covid-19. Tair gêm mae Dinbych wedi chwarae yn y mis diwethaf, sef gêm gyfartal 2-2 yn erbyn Caergybi gyda goliau gan James Thomas ac Aled William, yna colled o 3-1 yn Llangefni, a cholled gartref o 3-1 yn erbyn Rhuthun gyda'r unig gôl yn cael ei sgorio gan Ben Allis.

Colli oedd hanes Tîm Ieuenctid Ethan Jones yn eu hunig gêm y mis yma, o 4-2 gartref yn erbyn Rhydymwyn mewn perfformiad hynod o ganmoladwy i'r bechgyn. Harry Lea a Ben Allisa sgoriodd i Ddinbych.

Mae'r Clwb bob amser yn edrych am wirfoddolwyr i helpu gyda dyletswyddau gwahanol ar ddiwrnodau gêm ac mae'n gyfle gwych i gymdeithasu a dod i adnabod pobl newydd. Mae rhai o'r dyletswyddau ar hyn o bryd yn cynnwys stiwardio, swyddog cyfryngau, a gwaith bar a chegin. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch gydag Iwan Jones ar 07788 627819 am fwy o wybodaeth.


Lluniau ar y dudalen gefn.



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# Sul y Cofio









Côr Meibion Dinbych





Y Maer y Cynghorydd Rhys Thomas



Sam Pritchard - arweinydd newydd Côr Meibion Dinbych



Parch Norma Rowles



Tegid Phillips - Clwb Rygbi



Clarc - Jennie Barlow



Mike Neumann - Brigad Dân Dinbych



Bob Rowlands -Henoed Dinbych



Sion Wynne - Plaid Cymru



Heddlu Dinbych



Medwyn Williams a'i dad J.D.Williams



Glyn Edwards - Côr Meibion Dinbych



Ysgol Twm o'r Nant



Gwyn a Medwen, Infirmary

# CPD



Sam Jones yn dathlu ei gôl yn erbyn Llandudno Albion



Arthur Vaughan, yr aelod sydd wedi bod ar y pwyllgor hiraf ac un o stiwardiaid gwirfoddol CPD Dinbych



Y stiwardiaid gwirfoddol yn y gêm yn erbyn Llandudno Albion - Pete Lloyd, Gareth Jones a Rob Jones



Clwyd Williams, cyn chwaraewr Dinbych yn y 60au a'r 70au, ac sydd bellach yn Llywydd ar CPD Dinbych ac yn brif stiward



Y tad a'r mab, Paul a Dafydd Montgomery yn rhedeg y bar yn Nhŷ'r Clwb